



Wrth iddynt wneud cynnydd

Creaduriaid Craff

Beth am 'Chwarae i Ddysgu'?

Anogwch y plant i archwilio'r canlynol:

- Gwisgo bib creadur estron
- Taflu/cicio pêl i mewn i'r 'parth cadw', rhedeg i'w chasglu/codi a symud i mewn i'r 'parth sgorio', yna rhoio pêl neu'i thafu dan ysgwydd er mwyn taro gôl/targed. Dylent ddychwelyd i'r 'parth cadw' ac ailadrodd y gweithgaredd. Dylent wneud y gweithgaredd uchod - gan osod dewis o dargedau i anelu atynt. Dylai'r plant benderfynu ar system sgorio ar gyfer pob targed, sawl tro a gaiff pob un/beth yw'r terfyn amser, ac ati
- Taflu a dal y bêl yn y 'parth cadw', ac yna symud i mewn i'r 'parth sgorio' ac anelu at y goliau/targedau. Dylai'r plant benderfynu ar y rheolau ar gyfer y gweithgaredd dal a thafu yn y 'parth cadw', e.e. pryd i symud i mewn i'r 'parth sgorio', teithio gyda'r bêl ai peidio, ac ati
- Gosod targedau ar gyfer sawl gôl/pwynt y gallant eu sgorio mewn pum tro/un funud
- Cofnodi eu hymdrechion â chymorth, gan ddefnyddio system sgorio syml
- Cydweithredu â phlentyn arall i ennill eu sgôr uchaf



Cyfleoedd i:

- ddilyn rheolau syml gêm
- anfon a chael gwrthrych dros bellter byr
- cerdded neu redeg at bêl a'i chicio
- datblygu eu gallu i berfformio sgiliau syml gyda phartner

Adnoddau

- Marcwyr dros dro/marciau sialc
- Bagiau ffa, teganau meddal
- Amrywiaeth eang o beli, gan gynnwys peli cadw'n heini
- Coetiau
- Balûns
- Cylchoedd
- Targedau/goliau bach, blychau bach, wicedi, sgiltis, ac ati
- Bibiau creaduriaid estron
- 'Gardd' wedi'i rhannu'n ddau hanner - 'parth cadw' a 'parth sgorio'

Cwestiynau

- Pa reolau rydych chi wedi eu llunio?
- Beth mae'n rhaid i chi ei wneud i sicrhau bod pawb yn ddiogel pan fyddwch chi'n cicio'r bêl?
- Beth sydd fwyaf anodd ynghylch y gweithgaredd hun?
- Sut gallwch chi a'ch partner helpu eich gilydd i wella eich sgiliau anfon?

Diogelwch a threfn

Sicrhewch:

- bod yr arwyneb yn lân ac yn rhydd o rwystrau
- bod y plant yn gweithio mewn 'gerddi', a'u bod yn deall y rheolau ar gyfer casglu peli sy'n mynd i mewn i 'erddi' eraill

Geiriau allweddol

- Rheolaeth, sgiliau cydsymud
- Cario, rhoio, taflu, cicio, rhedeg ar ôl, dilyn, codi, dal, guthio, llywio, cadw cydbwysedd
- Targed, taro, methu, gôl, sgôr, pwyntiau, anelu, cywirdeb
- Anfon, cael, cadw, teithio gyda

A allwch chi weld y plentyn?

- Yn dilyn rheolau syml gêm?
- Yn anfon ac yn cael gwrthrych dros bellter byr?
- Yn cerdded neu'n rhedeg at bêl ac yn ei chicio?
 - Yn datblygu ei allu i berfformio sgiliau syml gyda phartner?

weithiau

gan amlaf

Anogwch y plentyn i:

- ymarfer pob agwedd cyn chwarae'r gêm – cyfeiriwch at y Cardiau Sgiliau Technegol
- trafod y rheolau y mae am eu dilyn
- gweithio mewn 'gardd' ar ei ben ei hun i ddechrau

Anogwch y plentyn i:

- ddatblygu a dilyn rheolau mwy cymhleth
- anelu at dargedau anos
- anfon a chael gwrthrych dros bellterau hirach am gyfnodau hirach, gan ddefnyddio amrywiaeth o dechnegau anfon a chael
- ceisio curo sgôr ei bartner

Cyfleoedd campus

- Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol: Datblygiad cymdeithasol – datblygu dealltwriaeth o'r hyn sy'n deg ac yn annheg, a bod yn barod i gyfaddawdu
- Datblygiad Mathemategol: Rhif – cyfrifo mewn amrywiaeth o ffyrdd